

Llwyddiant Ysgubol



Nid ar chwarae bach mae trefnu Eisteddfod. A dros y flwyddyn diwethaf mae tîm wedi bod yn gweithio'n ddygn ar gyfer diwrnod llwyddiannus dros ben yng Nghapel y Bont Pontypridd a Chlwb y Bont. Cychwynnodd y gweithgareddau am 9 y bore Sadwrn 28 Mehefin gyda torf o blant yn cystadlu mewn cystadlaethau unigol a chorau. Daeth llu o ddysgwyr i gystadlu a daeth y diwrnod i ben yn sain rhai o gorau enwocaf yr ardal. Diolch i bawb fu'n rhan o llwyddiant yr wyl.



Gwledd o ganu i gloi'r Eisteddfod




Bechgyn Bro Taf y Côr a'r Côr Gwerin Buddugol



Tôn-teg y Côr Cerdd Dant Buddugol




Edwyn Evans yn cyflwyno Baton, cyflwynwyd i Hughie Williams arweinydd Côr Llanfachraeth 1927, i Richard Vaughan, arweinydd y côr buddugol



Mabli
Rogers
Enillydd
yr Unawd
Oedran
Uwchradd

Bethan
Ford
Enillydd
yr Unawd
Offerynnol
Agored



Brwydr y Bandiau Eisteddfod Pontypridd



Band Buddugol - Trydanol



Ysgol Llwynceilyn enillwyr Corau Ysgol Gynradd



tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Medi
i gyrraedd erbyn
31 Gorffennaf 2025

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



EVANPRINT

www.evanprint.co.uk

CYMRAG

**Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru**

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



PONTYPRIDD

Gohebwy: Siân a Mike Ebbsworth

Merched y Wawr

Ym msi Mehefin cafwyd noson arbennig yng nghwmni Bethan Mair, cyn Brif Olygydd Gwasg Gomer, sydd bellach yn rhedeg cwmni cyfieithu ei hun. Y mae'n wyneb a llais cyfarwydd i wrandawyr Radio Cymru, a gwylwyr S4C. Aeth Bethan â ni ar daith drwy gyfrwng 5 eitem oedd yn dynodi cerrig milltir teuluol arwyddocaol a theimladwy. Mae'r gallu i adrodd stori a chydio mewn cynulleidfa yn rodd, ac mae Bethan yn feistes. Roeddem yn chwerrhin yn iach; yn syfrdanu, ac yn estyn am hancesi drwyddi draw!



Fe welwch Mrs Dorothy Todd yn cyflwyno Bethan. Roedd Dorothy yn nabod ei theulu'n dda yn ystod eu cyfnod yn Ystalyfera a Phontrhydyfen. Yn wir, roedd mam Bethan ym mhriodas Dorothy a Barry ac achubodd y ddwy ar y cyfle i bori drwy'r albwm priodas.

Nid eitem ddiriaethol oedd yr olaf, ond y hytrach, recordiad ar ei ffôn symudol. Roedd mam Bethan yn enillydd ar unawdau cerdd dant drwy'r 1950au a'r 60au, ac fe orffennodd ei sgwrs drwy chwarae recordiad ohoni yn ennill yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 1962. Doedd dim llygad sych yn yr ystafell.

"Un o'r goreuon yn hanes y gangen", medd un aelod.

Ym mis Gorffennaf byddwn yn ymweld â choetir cymunedol Stryd y Ddôl (Meadow Street) Trefforest; ffrwyth llafur gwirfoddolwyr yn y gymuned. Mae'r ardal wedi'i rhannu yn erddi a rhandiroedd llysiau a ffrwythau sy'n frith o lwybrau gwastad a manau eistedd. Byddwn yn cloi ein blwyddyn ym mwyty Eidalaid Rustico.

Diolch i'r swyddogion presennol (Menna Lewis, Dilys Davies, Mair Edwards a Margaret Francis) am gytuno i barhau y neu swyddi am flwyddyn arall. Bydd y gangen yn cwrdd ar ôl saib mis Awst yn y Lloft, Clwb y Bont ar nos Iau, Medi 11eg am 7:30 y.h. Croeso mawr i aelodau newydd.

Clwb Llyfrau

Byddwn yn cwrdd am ein clonc arferol yn y llyfrgell, fore Mercher Gorffennaf 16eg. Joiwch y darllen dros wyliau'r haf ac fe ddown at ein gilydd eto ar Fedi 17eg am 10:30 y.b.

Lleisiau Newydd 'Y Triban'

Cafodd Caryl Williams, Graigwen wahoddiad arbennig yn ddiweddar gan yr arweinydd cerdd, Islwyn Evans, sylfaenydd Ysgol Gerdd Ceredigion. Roedd bwriad ganddo i wneud trefniadau o rai o ganeuon eiconig y grŵp o'r 60au a'r 70au a chyflwyno aelodau ifanc i'r 'hits'.

Roedd Caryl wedi gwirioni gan y wledd o ganu a'r croeso twymgalon. Profiad byth gofiadwy yn sicr!

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da am adferiad ar ôl llawdriniaeth i David Davies, Trallwn. Brysia nôl i Gôr Godre'r Garth a Pharti'r Efail David.

Llongyfarchiadau

Pob hwyl i Rhuanedd Richards yn ei swydd Newydd. Cafodd Rhuanedd ei phenodi yn 'Gyfarwyddwr y Cenhedloedd' gyda'r BBC.



Parti Ponty Bach

Daeth tyrfa dda i ardal y Bandstand a Chanolfan Canol Tâf ym mharc Ynysangharad ar Fehefin 21ain i fwynhau cerddoriaeth a gweithgareddau o bob math. Diolch i bawb a fu'n trefnu a chyfrannu ar y dydd. Bu sawl un yn brysur yn paratoi a gwerthu cacennau a diodydd yn y ganolfan. Codwyd dros £300 yno i goffrau Eisteddfod Pontypridd.



Gohebydd mis Medi – Jayne Rees

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb y Dwrllyn

Dychwelyd am ail flwyddyn yn olynol i Westy'r Cliff yn Gwbert fu hanes tua deg ar hugain o aelodau Clwb y Dwrllyn ym mis Mehefin. Bu'r tywydd yn hynod garedig ar gyfer gweithgareddau'r dydd Sadwrn – lle roedd rhyddid i bawb i fynd eu ffyrdd eu hunain. Yn wir, mentrodd dwy ddewr i forio gan ymuno â chydfordeithwyr â'u bryd ar fynd allan i Fae Ceredigion i gael cip ar beth o'r bywyd gwyllt. Braf yw cael adrodd i'r ddwy ddychwelyd yn ddiogel i dir sych. Prin bod angen adrodd i rai droi tua'r cyrsiau golff lleol ac eraill i'r Spa.

Roedd angen lleiafswm o ddwsin cyn gellid trefnu ymweliad â safle lle bu i garcharorion rhyfel o'r Eidal greu eglwys Babyddol hynod – a hynny drwy ail-gylchu'r casgliad rhyfeddaf o ddeunyddiau. Ar y bore Sadwrn, roedd dwbl yr isafswm am ymuno a diolch i'r tywysydd, Linda, fe'i cyfareddwyd hwy oll gan ddyfeisgarwch y rhai fu'n preswyllo ar y safle yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



Gwerth nodi i un o'n plith, Emllyn Davies, ffilmio yno ar adeg pan oedd yr arlunydd dyfeisgar, Mario, ar ymweliad o'r Eidal, cyswllt oedd wedi ei ysgogi fel rhan o weithgaredd ysgol gynradd leol. Mae'r eglwys, sydd bellach yn fregus, wedi cael gorchudd modern drosti i'w diogelu am y blynyddoedd i ddod a rhaid talu teyrnged i ddiweddar ŵr Linda, a'i dad o'i flaen, am eu penderfyniad i ddiogelu'r eglwys, a hynny heb fawr o gefnogaeth ariannol gan gyrff y byddech



chi'n disgwyl fyddai'n gwybod yn well. I Joy ac Eifion Glyn mae'r diolch am drefnu'r ymweliad.

Wedi'r cinio nos Sadwrn, dan lywyddiaeth Huw Llywelyn, profwyd fod yn ein plith amryw all fod yn gelwyddgw'n pan fo'r galw. Teg cofnodi fod yno hefyd ambell un geirwir, ond na wyddai rhai swperwyr prun oedd prun!

O sôn am y swperau, mae ein diolch yn arbennig i ysgrifennydd diwyd y Dwrllyn, Rhodri-Gwynn, am oruchwyllo'r cyfan fel fod pawb yn cael eu dewis gwreiddiol o fwydydd. Mae pwyllgor Clwb Y Dwrllyn ar fin trefnu rhaglen y flwyddyn nesaf ac mae rhai aelodau eisoes wedi cynnig awgrymiadau am nosweithiau a syniadau. Byddai'n dda iawn clywed gennych am unrhyw awgrym y gellid ei ystyried. (Ifan Roberts.)

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Lily Mae, Martha a Sophie, Ysgol Gynradd Pentyrch ar ennill y gystadleuaeth perfformio Golygfa. Dyma'r tro cynta i'r ysgol gystadlu yn yr Urdd felly gobeithio bydd llwyddiant y dair yn ysgogiad i nifer o ddisgyblion eraill gystadlu flwyddyn nesa'.

Ysgoloriaeth

Yn flynyddol mae'r Urdd yn cynnig Ysgoloriaeth i'r unigolyn mwyaf addawol yn yr oedran blwyddyn 10 a dan 19 oed. Eleni, yr enillydd oedd Erin Jardine, wyres Morfydd Huws. Enillodd Erin ar yr unawd telyn a'r unawd piano yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn ogystal bu'n canu mewn corau ac yn cyfeilio. Llongyfarchiadau gwresog i Erin sy'n ddisgybl yn Ysgol Plasmawr. Mae dyfodol disglair o'i blaen.



Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Dewi Hughes wedi iddo gollu ei fam Mrs Mair Hughes yn dilyn gwaeledd yn Nhywyn. Cofiwn hefyd am Deri, Cerian a'u teuluoedd.

Gwellhad Buan

Danfonwn ein dymuniadau gorau at Wyn Rees yn dilyn ei anffawd yn ddiweddar. Brysia wella Wyn.

Dyfodol Tafod Elái

Mae papur bro Tafod Elái wedi ei gyhoeddi yn gyson dros y deugain mlynedd diwethaf ond os yw'r papur am barhau yna mae angen tîm newydd i lywio'r papur i'r dyfodol.

Byddwn yn dathlu y 400fed rhifyn ym mis Medi a dros y blynyddoedd mae criw sylweddol o wirfoddolwyr wedi cynnal y papur drwy Gasglu Newyddion ac Erthyglau, Hysbysebion, Golygu, Gosod a Dosbarthu a Chasglu Tanysgrifiadau.

Ond mae angen pobl newydd i gymryd cyfrifoldeb os yw'r papur am barhau.

Os oes gennych ddi-ddordeb cysylltwch â pentyrch@tafelai.com .

Eisteddfod Pontypridd

Llongyfarchiadau i Mabli Rogers, Maesysarn, enillodd y gystadleuaeth Unawd Adran Uwchradd. Hefyd i Liz Wallek enillodd wobwr yng nghystadlaethau llenyddol y dysgwyr ac i Ifan Roberts am ennill y Stori Fer.

Clwb Rygbi Pentyrch

Nos Wener olaf Mehefin, cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiant ail dim Pentyrch - Yr Hyrdod - yn ystod y tymor sy newydd ddod i ben. Yn noson wobrwyo Rhanbarth y Dwyrain o Undeb Rygbi Cymru a gynhaliwyd yng Nghlwb Athletig Caerdydd, enillwyd dau dlws - Pencampwyr y Gynghrair lle'r oedd y tîm yn bell ar y blaen ar y brig, a Chwpan Harry Parfitt sy'n cael ei gyflwyno bob tymor i'r tîm sy'n croesi am y nifer ucha o geisie bob gêm, - 6.7 ar gyfartaledd i'n bois ni. Llongyfarchiadau mawr i bawb am eu hymdrech - roedd hon yn gamp ryfeddol o ystyried taw dim ond rhyw 2 neu 3 thymor yn ôl y llwyddwyd i ail ffurfio ail dim yn y clwb



Mike Herbert - "Herbie" - y capten oedd yna i dderbyn y ddau dlws yng nghwmni rhai o'i gyd-chwaraewyr a swyddogion y tîm

Menter Caerdydd



Gweithgareddau'r Haf

Roedd yn braf gweld cymaint o bobl yn mwynhau yn Tafwyl fis diwethaf. Diolch i bawb ddaeth draw i Barc Bute i gefnogi'r wyl. Er holl brysurddeb y mis diwethaf, mae'r gwaith yn parhau a chriw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wrthi'n paratoi llond amserlen o weithgareddau i gadw'r plant yn hapus dros yr haf. Cofiwch hefyd am ein digwyddiadau amrywiol ar gyfer oedolion gan gynnwys cwis i ddysgwyr a sesiynau cerdded a sgwrsio.

Cerdded a Chlonec (rhad ac am ddim)

Beth am fanteisio ar y nosweithiau braf i ymuno â ni am dro hamddenol? Mae croeso i siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Byddwn yn cynnal sesiynau Cerdded a Chlonec am 6.00yh ar y nosweithiau canlynol:

Nos Fawrth, 8 Gorffennaf – Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd
Nos Fawrth, 12 Awst – Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien
Nos Fawrth, 19 Awst – Parc Cosmeston, Penarth

Teithiau Tywys

Cofiwch gofrestru ar gyfer ein taith dywys i Bontypridd ar brynawn Sul, 27 Gorffennaf pan fydd Wil Morus Jones yn adrodd hanes rhai o leoliadau a chymeriadau diddorol y dref. Yn ystod y daith byddwn yn ymweld â Pharc Ynys Angharad, yn cerdded i'r Comin, yn olrhain hanes Camlas Morgannwg, yn clywed am helyntion Dr William Price ac yn gorffen ger Cofeb yr Anthem. **Cost: £4.00. Hyd 2.5-3 awr.**

Taith ola'r haf bydd ymweliad ag Ynys Echni ar fore Sul, 31 Awst. Cawn 3 awr ar yr ynys a thaith dywys i glywed ychydig o hanes y lle. Dim ond un sedd sydd ar ôl ar y cwch felly y cyntaf i'r felin! **Cost: £40.**



Tara Bandito yn Tafwyl

Boreau Coffi yn yr Hybiau

Hyb Llaneirwg – 10.30-11.30 - bore Mawrth, 1, 15, 29 Gorffennaf. 12, 26 Awst.

Hyb Rhiwbeina – 10.30-11.30 – bore Gwener, 4 a 18 Gorffennaf. Dim cyfarfod yn ystod gwyliau'r ysgol.

Hyb Rhydyppennau – 10.30-11.30 – bore Iau, 3, 17, 31 Gorffennaf. 14, 28 Awst.

Siaradwyr Newydd - Y Cwis Mawr

Cynhelir rownd Bro Morgannwg o'r Cwis Mawr yng Nghanolfan Palmerston, Y Barri, am 6.00yh, nos Fawrth, 15 Gorffennaf. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael i bawb a'r cyfan yn rhad ac am ddim.

Snail's Deli, Rhiwbeina fydd lleoliad rownd Caerdydd, nos Iau, 17 Gorffennaf am 6.00yh gyda phitsa a sglodion ar gael, am ddim, i bawb sy'n cystadlu. Bydd cyfle i'r timau buddugol fynd ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam gyda thocyn diwrnod am ddim i bob aelod o'r tim ar gyfer diwrnod y ffeinal, sef dydd Sadwrn, 2 Awst.

Mae'r cwis yn rhan o gynllun cenedlaethol rhwng Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn addas i siaradwyr newydd o bob lefel. Caniateir hyd at 4 o bobl mewn tîm gyda chroeso mawr i diwtoriaid ddod i helpu!

Taith Hanes

SUL, 27.07.25
14:00-17:00
£4.00

Pontypridd

- Taith yn Gymraeg yng nghwmni Wil Morus Jones
- 2.5-3 awr o gerdded o gwmpas y dref ac i'r comin

Am fwy o fanylion am hyd a lleoliadau'r daith, ac i gofrestru, ewch i'r wefan.

mentercaerdyd.cymru/oedolion
rachel@mentercaerdydd.cymru



MC - Rhif Eilais: 1898806. Rhif Cwmni: 4276265
MBM - Rhif Eilais: 179355. Rhif Cwmni: 188677018



wyrion yn ystod gwyliau hir yr haf, cofiwch am ein sesiynau chwarae rhad ac am ddim, Bwrlwm! Byddwn yn cynnal sesiynau mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y brifddinas a Bro Morgannwg am gyfnod penodol yn ystod gwyliau'r ysgol.

Bydd ein cynllun Gofal yn rhedeg yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd o ddydd Mawrth, 22 Gorffennaf gan gynnig gofal plant o 8.30 am £35 y dydd. Bydd Clwb Sgiliau Menter Caerdydd hefyd yn rhedeg yn Ysgol y Berllan Deg am dair wythnos gyntaf y gwyliau (£30 y dydd).

Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion am ein gweithgareddau gwyliau ar y wefan neu ar y poster yn y Dinesydd.



Tymor yr hydref - Cadwch y dyddiad:

Sain Ffagan – bore i ddysgwyr, Gwener, 12 Medi

Ymweliad ag Archifau Prifysgol Caerdydd – prynhawn Mawrth, 16 Medi

Sgwrs y Mis – nos Lun, 22 Medi (Cyfraith Hywel Dda)

Mewn Tiwn – bore Llun, 29 Medi

I gofrestru ar gyfer gweithgareddau i oedolion, ewch i:

mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

Ar gyfer y Cynllun Gofal, ewch i: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc/gofal-plant

I gael gwybodaeth am weithgareddau i blant gan gynnwys 'Bwrlwm': mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc/gweithgareddau-gwyliau

Gwefan: mentercaerdydd.cymru

Facebook: @m.caerdydd

Instagram: @mentercaerdydd

E-bost post@mentercaerdydd.cymru

Ffôn: 029 2068 9888

Gweithgareddau'r Gwyliau

Os ydych chi'n chwilio am weithgareddau i ddiddanu'r plant a'r



EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Llongyfarchiadau

Bydd Ann ac Eirian Rees, Penywaun, yn dathlu 65 mlynedd o briodas ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau gwresog i chi eich dau. Dymunwn yn dda i Ann sydd wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Neuadd y Pentre'n Dathlu



Treuliais orig hyfryd yn Neuadd y Pentref fore Sadwrn, Mehefin 21ain. Cawsom ni gyfle i ddathlu adeiladu'r Neuadd 60 mlynedd yn ôl. Roedd yna gasgliad o luniau a hanes y Neuadd a Chapel y Tabernacl yn amgylchynu'r stafell. Roedd casgliad o arteffactau cofiadwy ac albwm neu ddau yn adrodd hanes cymunedol y pentref dros y blynyddoedd. O ddiddordeb arbennig roedd y ffilm o Geraint Rees yn cyfweld aelodau o'r pentref yn sôn am eu hatgofion o'r ardal. Roedd cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen a chyfle i brynu danteithion melys ar gyfer ein te prynhawn. Llongyfarchiadau gwresog i aelodau pwyllgor y Neuadd am baratoi bore llwyddiannus iawn i ddathlu a hel atgofion.



Llwyddiant Tafwyl

Llongyfarchiadau fil i Heulyn Rees, Prifweithredwr Menter Iaith Caerdydd a'i dîm brwdfrydig o weithwyr am drefnu chwip o Wyl yn ystod y mis. Daeth miloedd o gefnogwyr i fwynhau Gŵyl Tafwyl yng Nghaerdydd.

Graddio

Llongyfarchiadau i Gruff Roberts, Heol Ffrwd Philip, ar dderbyn gradd dosbarth cyntaf o Goleg yr Iesu, Caergrawnt. Bu'n astudio Ieithoedd Modern a Chanoloesol, yn arbenigo mewn Ffrangeg a Sbaeneg.

Bardd Newydd

Mae Taid a Nain, Celt ac Enfys Hughes yn falch iawn o'i hwyres Elsi a enillodd yr ail wobwr yn y gystadleuaeth i blant Blwyddyn 5 a 6 yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau cynnes iti, Elsi.

Tybed a Wyddech chi?

Tybed faint o ddarllenwyr Tafod Elái oedd yn gwybod taw Pamela John o Dreforys, enillydd Tlws John a Ceridwen Hughes yn Eisteddfod yr Urdd eleni oedd yr athrawes gyntaf yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg pan sefydlwyd yr ysgol yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Ei dymuniad oedd sefydlu cangen o'r Urdd yng Ngarth Olwg cyn iddi ddychwelyd i ardal Treforys i ddyysgu.

Y TABERNACL

Cinio Dathlu Pen-blwydd Priodas

I ddathlu 65 mlynedd o briodas roedd Eirian ac Ann Rees wedi croesawu cyfeillion Y Tabernacl i ginio yn Neuadd y Pentref yn dilyn yr Oedfa ar Sul, Mehefin 29ain. Nodir na fydd disgwyl anrhegion ond ceir cyfle i gyfrannu at waith Yasmine Rishmawi a'i heglwys ym Methlehem. Roedd Yasmine wedi annerch y gynulleidfa yn gynharach yn y bore.



Priodas

Cynhaliwyd priodas Aled Herbert a Ffion Rees yn Y Tabernacl dydd Sadwrn, Mai 24ain. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Rhiannon Humphreys. Dymunwn yn dda i'r pâr ifanc.

Y Twmiaid

Mae'r Twmiaid yn brysur iawn ar hyn o bryd. Ar ôl y Gwasanaeth brynhawn Sul, Mehefin 15fed fe agorodd y Twmiaid stondin lemonêd a chacen lemon yn y Ganolfan, ac mi wnaeth pawb fwynhau'r teisennau blasus.



Diolch Loreen

Mae cyfnod Loreen fel Gohebydd Efail Isaf i Tafod Elái yn dod i ben ar ôl dros 30 mlynedd. Mae ei cholofnau wedi rhoi darlun manwl o fywyd pentref Efail Isaf ac o fwrlwm Capel y Tabernacl.

Loreen oedd y gohebydd olaf i roi pin ar bapur a herio dawn teipio y gosodydd.

Diolch am dy holl waith yn cefnogi Tafod Elái fel Gohebydd ac am fod yn un o ddsbarthwr brwd yr ardal.

Dymunwn yn dda i Loreen a Carey a diolchwn am eu holl waith yn y gymuned dros y blynyddoedd.



Ar Sul, Mehefin 22ain cynhaliwyd Sialens Seiclo a dwi'n siŵr i bawb gael tipyn o hwyl.

Ar Orffennaf 11eg cynhelir Cwis a Bwyd Traddodiadol Cyprus gan y Twmiaid yn Neuadd y Pentref am 7 o'r gloch yr hwyr. Bydd elw'r tri digwyddiad yn cael ei gyflwyno i Elusen Canser Gareth Edwards. Go dda chi, aelodau'r Twmiaid ac i Eleri Mai am eich tywys.

Hanes y Tabernacl

Dydd Sul, Mehefin 15fed, cyfarfod yn y prynhawn a gafwyd. Mi wnaeth y gynulleidfa rannu yn dimau o ryw bedwar neu bump gan chwilio am atebion i gwis a drefnodd Geraint Rees am hanes Y Tabernacl. Aelodau y Twmiaid oedd yn gapteiniaid y timau a chafwyd hwyl anghyffredin yn chwilio am yr atebion. Ydych chi'n gwybod yr atebion i'r cwestiynau yma?

Am faint o flynyddoedd bu Anti Vi yn organyddes yn Y Tabernacl?

Pryd agorwyd adeilad presennol Capel y Tabernacl?

Faint o fechgyn Y Tabernacl fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf?

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Gorffennaf ac Awst.

Gorffennaf 6ed Dewi Lewis

Gorffennaf 13eg Y Parchedig Aled Edwards

Gorffennaf 20fed Geraint Rees

Gorffennaf 27ain Uno gyda chynulleidfa Bethlehem, Gwaelod y Garth am 10:30yb
Awst 3ydd Allan James

Awst 10fed Uno gyda chynulleidfa Bethlehem, Gwaelod y Garth am 10:30yb
Awst 17eg Geraint Rees

Awst 24ain Uno gyda chynulleidfa Bethlehem, Gwaelod y Garth am 10:30yb

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi'r Prifardd Llŷr Gwyn Lewis am ei gasgliad newydd o gerddi, *Holl Lawenydd Gwylt*.



O ble rydych chi'n dod?

Dw i'n dod yn wreiddiol o Gaernarfon. Ond erbyn i ni fel teulu adael Caerdydd roeddwn i wedi byw yno bron cyhyd! Felly mae'r ddau le yn agos iawn at fy nghalon.

Ble rydych chi'n byw?

Ers chydig dros flwyddyn rydan ni wedi symud i Ruthun ac yn mwynhau dod i adnabod ardal a phobl cwbl newydd.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Do, ar y cyfan. Roedd Ysgol Syr Hugh Owen yn lot fawr o hwyl. Ro'n i'n barod i adael erbyn y diwedd ac fel nifer o rai eraill dim ond ar ôl gadael y des i werthfawrogi Caernarfon yn iawn. Ges i flas aruthrol ar addysg prifysgol, gymaint felly nes imi fynd ymlaen i astudio cwrs gradd meistr a doethuriaeth.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?

Yn hogan ifanc, Hedd Wyn a Gerallt Lloyd Owen. Yn fy ardegau, bandiau a Philip Larkin! Dod nôl wedyn i werthfawrogi beirdd cenhedlaeth Twm Morys, Emyr Lewis ac ati, a chael blas hefyd ar feirdd fel Yeats yn y coleg.

Yn y blynyddoedd diweddar dw i'n hoff o feddwl fod fy niddordebau a'm dylanwadau yn eang fel nad ydw i'n efelychu un bardd penodol yn ormodol! Erbyn hyn mae'r beirdd rydw i'n ymdroi yn eu mysg mewn talwrn ac ymyron a noson farddol yn ddylanwad aruthrol, gan fod rhywun yn clywed/darllen eu stwff, yn digalonni gan mor dda ydi o, ac yna ar ôl chydig yn trio sgrifennu i ddal fyny â nhw. Un dylanwad mawr arall ers fy ardegau hefyd ydi geiriau caneuon gan bob math o fandiau ac artistiaid.

Pa gyfrolau eraill ydych chi wedi cyhoeddi?

O ran barddoniaeth, *Storm ar wyneb yr haul* yn 2014 ac yna pamffled, *rhwng dwy lein drên*, yn ystod y cyfnod clo. Dw i wedi cyhoeddi dwy gyfrol ryddiaith, *Rhyw Flodau Rhyfel* (sy hefyd ar gael mewn cyfieithiad Saesneg gwych gan Katie Gramich) a *Fabula*, ac wedi bod yn olygydd hefyd ar gyfrolau fel casgliad *Bragdy'r Beirdd* a detholiad o gerddi T. Gwynn Jones.

O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?

Roedd nifer o'r cerddi wedi bod yn hel a chrynhoi wrth gyfansoddi i'r Talwrn, ac wrth ymgeisio'n aflwyddiannus sawl tro am y Goron. Dyma anfon swp draw at Beth Celyn yn *Barddas*, a hithau'n cael blas ar y cerddi oedd yn edrych ar fy magwraeth drwy gyfrwng gemau fideo.

Mater oedd hi wedyn o ddewis a dethol pa rai o'm cerddi eraill oedd yn cyd-fynd yn thematig neu'n cyferbynnu'n effeithiol â'r rheini, ac adeiladu cyfrol o'u cwmpas. Y peth mwyaf heriol oedd yr amserlen. Daeth cyfle i gyhoeddi'n gynt na'r disgwyl, felly mi ges i ambell noson hwyr yn gyfansoddi llond dwrn o gerddi newydd i lenwi'r bylchau.

Beth yw arwyddocâd y teitl?


Mae'n dod o linell ola un o gerddi'r gyfrol, 'Menagerie', lle rydw i'n awgrymu y bydda i, ryw ddydd, yn gweld colli holl flerwch a llanast presennol ein bywyd: eu 'holl lawenydd gwylt domestig nhw'. Y 'nhw' yw ein tri mab, ac oes, mae llanast dybryd hyd y tŷ bob gafael. Ond wrth gwrs, yn ystrydebol ddigon, pan fydd y lle'n daclus ac yn dawel mi welwn ni isio'r anhrefn. Dyna dyndra sydd wrth wraidd nifer o'r cerddi am wn i ac roedd y cyferbyniad rhwng y llawenydd, y gwylt (a'r domestig, yn y lein wreiddiol) fel petai'n crynhoi hynny. Efallai y bydd rhai'n gofyn, a finnau'n nadu'n bruddglwyfus am y naill beth a'r llall yn y cerddi hyn, 'ymhle mae'r llawenydd?'. Ond mae o yno. Dw i'n canfod mai'r tric, yr her, bob amser yw stopio ynghanol y prysurdeb a'r blinder i sylwi arno ac i'm hatgoffa fy hun, ynghanol y corwynt, ydw, mod i yn llawen.

Beth sy'n gwneud cerdd dda?

Pe bawn i'n gwybod hynny, byddai gen i lawer mwy o wobrau! Haws efallai ddweud be sy'n gwneud cerdd wael. Dw i'n credu bod nifer o gerddi – gan gynnwys nifer o'm rhai fy hun! – yn euog o fod yn gwbl amddifad o *dyndra*. Rhaid wrth y tyndra creadigol hwnnw, dw i'n meddwl. Does dim diben sgrifennu rhywbeth bach telynegol swynol lle nad oes dim yn newid nac yn tynnu'n erbyn ei gilydd neu'n datgelu rhyw eironi neu ddyhead neu anniddigrwydd cudd. Prinna yr aiff fy amser i, mwya rydw i'n teimlo bod dyletswydd ar gerdd i fod wedi newid rhywbeth ynof, waeth mor fychan, rhwng dechrau ei darllen a'i gorffen. Wrth gwrs, dydi hanner fy ngherddi fy hun, beryg, ddim yn llwyddo yn hynny o beth!

Sut mae cerdd yn dechrau?

Mewn mil o wahanol ffyrdd. Dw i'n euog o fynd i grwydro a mwydro braidd felly yn dechneg rydw i wedi ei chael yn ddefnyddiol ydi ceisio penderfynu lle rydw i am ddiweddu: beth mae'r llinell ola'n mynd i'w ddweud? Wedyn galla i ofyn: be arall rydw i angen ei ddweud gyntaf er mwyn gallu cyraedd y llinell ola honno? Naill ai mae hynny'n gweithio ac yn rhoi siâp i'r gerdd, neu fel arall daw'r llinell glo yn llinell agoriadol, a galla i ddechrau o fannu.



Sut mae cerdd yn datblygu?

Dwi'n dal i fod yn arbennig o hoff o ddull beirdd astudiais flynyddoedd lawer nôl, sef y Beirdd Metaffisegol. Cymryd un ddelwedd a'i datblygu roedden nhw, ar draws llinellau neu benillion lawer: y cysët neu'r trosiad estynedig. Dw i'n dal i ganfod synied felly am gerdd yn beth ffrwythlon neu fel dwedodd Paul Klee am arlunio, 'a line is a dot that went for a walk'; i mi yn aml 'a poem is a line that I took for a walk'!

Beth sy'n well 'da chi, mesurau rhydd neu gaeth? Ydyn nhw'n gweddu i gerddi arbennig?

Dw i wrth fy modd yn amrywio rhwng y ddau ac yn cael boddhad gwahanol yn gyfansoddi'r ddau beth. Mae mwy o ryddid ac ehangder mewn cerddi rhydd ond pan yw'r gynghanedd yn gweithio, yn tincial, yn llyfo, mae rhywbeth cwbl hudolus i'r teimlad yna. Weithiau hefyd dw i'n ddiolchgar am y modd mae'r gynghanedd yn cyfyngu ar y dewis o air, o deimlad, o ddelwedd, os yw penrhyddid y mesurau rhydd yn rhy ormesol. Yr hyn dw i ddim yn gwneud digon ohono yw'r tir canol, sef y mesurau rhydd. Yn rhy aml dw i naill ai'n mynd am gerddi cwbl benrhydd neu gerddi caeth! Un peth dw i wedi trio'i wneud mewn blynyddoedd diweddar yw cymryd y math o gerdd y byddwn fel arfer yn ei chanu ar fesur penrhydd, a rhoi cynnig arni ar gynghanedd. Dyna wnes i efo cerddi'r Gadair yn 2022, 'Traeth'.

Beth oedd proses cynllunio'r casgliad? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwy?

Rhaid imi ddiolch o galon i Beth Celyn am hyn. Roedd y broses olygyddol yn un braf dros ben a chynhyrchiol hefyd. Ro'n i'n gwybod bod gen i bentwr o stwff oedd yn perthyn i'w gilydd ond yn methu â gweld y ffordd orau o roi popeth at ei gilydd. Mewn trefn led gronolegol roedd pethau gen i ond helpodd Beth fi'n fawr i herio a chymhlethu hynny a thrio meddwl yn fwy thematig. Dw i'n mawr obeithio bod canlyniad yr arbrwf, a 'lefelau' y gyfrol, yn gweithio. Os ydyn nhw'n gweithio, i Beth mae'r diolch; ond os ddim, fy mai i, yn sicr, ydi hynny!

O DAN YR WYNEB (Parhad)



Llŷr yn ennill y Gadair yn Eisteddfod Tregaron 2022

Oes gennych chi rwfîn sgrifennu?

Dim oll y dyddiau hyn. Mae gwaith a theulu yn drech yn aml a pheth da hynny, wedi'r cwbl. Ffitio'r sgwennu mewn lle medraf! Os bydda i wedi fy llusgo fy hun i ffwrdd o'r sgorlio a thua'r sgwennu, bydda i'n yn cyfiri'r awr honno yn llwyddiant ysgubol. Mae sgriblo ar ffôn yn gymorth, a thri chyflwr yn fwy ffirwythlon na'r lleill: y gawod, mynd am dro sydyn gyda'r nos, a'r adeg rhwng tua 11.30pm ac 1am.

Beth yw eich barn am stad barddoniaeth Gymraeg?

Mae honna'n erthygl ynnddi ei hun! Yn gyffredinol, rydan ni mewn lle go iach, o ystyried popeth; ac mae yna amrywiaeth anhygoel o feirdd bellach yn perfformio a sgrifennu, beirdd llawer difyrach na rhywun fel fi. Ond y siom fwyaf: er ystod yr amrywiaeth honno, rhyw dueddu rydan ni o hyd i swnio'n drybeilig o debyg i'n gilydd! Diolch byth felly am rai fel Dafydd John Pritchard, sy'n ddigon dewr i droi ei arddull (hynod lwyddiannus) ar ei phen a sgwennu math cwbl wahanol o farddoniaeth.

Pwy yw eich hoff fardd? Pam?

Fedra i wirioneddol ddim ateb hwnna, mae'n ddrwg gen i. Amhosib fyddai dewis, hyd yn oed pe na bai'n newid o ddydd i ddydd!

Pa gyngor fydddech chi'n rhoi i fardd ifanc?

Peidio ar unrhyw gyfiri â digalonn os nad enillwch chi ryw gystadleuaeth. Mae'r pethau ma'n fympwyol a gormod o bwyslais gennym ar gystadlu p'un bynnag. Aiff dim byd i wast. Mae modd dod nôl at bethau, a gweithio arnyn nhw a rhoi ail fywyd iddyn nhw. Derbyn beirmiadaeth yn siriol, ac ymateb i'r feirmiadaeth a dyfalbarhau i fireinio a gwella. Ac wedyn eu taflu at ei gilydd a gweld be ddaw! Cerddi sy wedi 'colli', ar ryw ffurf neu'i gilydd, ydi nifer helaeth o gerddi'r gyfrol hon.

Beth sy'n eich gwylltio?

Gormod o lawer o bethau. Dw i'n beio'r diffyg cwsag ac yn gobeithio y daw canol oed a henaint â rhyw fath o zen-dod ac amynedd sy wedi pasio heibio imi hyd yma.

Beth sy ar y gweill?

Yr holl waith DIY fu ar stop wrth dreulio fy amser gyda'r nosau yn rhoi'r gyfrol at ei

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Diolch yn fawr iawn i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod ym Margam eleni. Perfformiodd pawb yn wych, gan gynnwys TM gyda'r Unawd Blwyddyn 5 a 6 a'r Alaw Werin, y Parti Unsain a'r Parti Deulais. Llongyfarchiadau enfawr



gilydd!

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd

Tships o'r siop tships, dim ware.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Dwi'n ysu am gael bod allan pan fedra i, yn ymweld â ryw heneb neu'i gilydd, amgueddfa neu fynydd neu ffynnon neu afon neu goedwig. Seiclo, nofio, rhedeg hefyd ar un adeg. Yfed cwrw da, a darllen, gwylio teledu, coginio. Canu nerth fy mhen i gyfeiliant miwsig da! Unrhyw beth, wir.

Dolen Gwales: <https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781911584940&tsid=3>

Holl Lawenydd Gwyllt, Cyhoeddiadau Barddas, £9.95

i'r Ensemble Lleisiol am ennill yr ail wobwr a'r Côr am ddod yn drydydd. Camp a hanner!

Llangrannog

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 amser arbennig wythnos hon yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Mwynhaodd bawb gymryd rhan mewn llu o weithgareddau gwahanol a chael y cyfle i gwrdd â ffrindiau newydd o ysgolion eraill hefyd. Profiad bythgofiadwy i bawb, a diolch yn fawr iawn i'r staff a roddodd eu hamser i fynd â'r plant i'r gwersyll.



Côr buddugol Côr Dysgwyr y Cymoedd yn Eisteddfod Pontypridd

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Llangrannog

Cafodd 31 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 amser wrth eu boddu yn Ngwersyll yr Urdd Llangrannog gyda gweddill ysgolion y clwstwr. Roeddnt yn hynod o ffodus i gael tywydd braf yn ystod y tridiau o weithgareddau. Diolch o galon i Miss Hughes, Mr Hughes, Mr Phillips a Miss John am wirfoddoli i ofalu am y plant yn ystod y daith. Diolch hefyd i Llangrannog am yr arlwy o weithgareddau.



Ymweld â cherflun Cranogwen



Tywydd a bwyd bendigedig yn Llangrannog!



Gwibgartio

Ymweliad gan Ddisgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Llanhari

Braf oedd croesawu cyn ddisgyblion o flwyddyn 7 Ysgol Llanhari yn ôl i'r ysgol i siarad am eu profiadau wrth symud i ysgol uwchradd. Roedd Blwyddyn 6 wedi mwynhau cael y cyfle i holi cwestiynau ac i glywed am y profiad o drosglwyddo i Flwyddyn 7 - o lygad y ffynnon.



Blwyddyn 6 yn croesawu cyn ddisgyblion Bl 7 Ysgol Llanhari yn ôl i'r ysgol



Diwrnod Celfyddydau Mynegiannol yn Ysgol Llanhari



Gweithgareddau Trosglwyddo Bl6

Ymweliad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub

Diolch yn fawr i aelodau criw Gilfach Goch o'r Gwasanaeth Tân ac Achub am ddod i siarad gyda disgyblion Blwyddyn 2 a 5 am ddiogelwch tân yn y cartref. Braf oedd gallu cyflwyno dau aelod o'r criw fel cyn ddisgyblion YGG Tonyrefail!



Blwyddyn 2 yn dysgu am yr injan dân

Pêl Fasedd

Derbyniodd disgyblion Blynnydoedd 2 i 6 dystysgrif yr un gan Missy Lender, cyn chwaraewraig pêl fasedd proffesiynol gyda'r Rhondda Rebels, am eu gwaith yn



Blwyddyn 3 i 6 gyda'u tystysgrifau pêl fasedd

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Grŵp Ukulele Ar Ben y Byd

Llongyfarchiadau mawr i'r Grŵp Ukulele a berfformiodd ym Mharti Bach Ponty. Maen nhw'n cyfarfod bob dydd Iau yng nghaffi Ar Ben y Byd am 5.30pm ac mae croeso i bawb. Mae Jennie Williams (yn y pinc yn y llun) yn diwtor gwych.



Diolch yn fawr i Wasg Carreg Gwalch

Diolch yn fawr iawn i Myrddin ap Dafydd a Gwasg Carreg Gwalch am rodd hael iawn i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, sef pedwar llond bocs o lyfrau. Mae disgyblion, staff a llywodraethwyr yr ysgol wrth eu bodd i dderbyn y llyfrau amrywiol a difyr hyn.



Llongyfarchiadau

Ganwyd Caio Dafydd ar 28 Mehefin yn 8 pwys 3 i Fflur Elin a Jonathan Edwards. Diolch i holl staff Ysbyty Glangwili am y gofal a'r cariad at Caio a Fflur.

Mae Tadcu a Mamgu Tonyrefail - Danny Grehan a Helen Prosser wrth eu boddau.

dysgu sgiliau pêl fasedd yn ystod y flwyddyn. Mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd yn y gwersi.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS]
(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Gorffennaf [dim YS]:

6 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
13 – Oedfa dan ofal Eirian Dafydd
20 – Cyd-addoli yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11:00 a.m.)
27 - Cyd-addoli (Bethlehem / Tabernacl) ym Methlehem

Mis Awst [dim YS]:

3 – Cyd-addoli yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11:00 a.m.)
10 – Cyd-addoli (Bethlehem / Tabernacl) ym Methlehem
17 – Cyd-addoli yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11:00 a.m.)
24- Cyd-addoli (Bethlehem / Tabernacl) ym Methlehem
31 - Cyd-addoli yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11:00 a.m.)

---oooOOOooo---

Ar daith benwythnos ddiweddar gyda Clwb y Dwrllyn i orllewin Cymru, cefais bleser anghyffredin ar y bore Sadwrn wrth i griw ohonom droi'n golygon tua Henllan – pentref yng Ngheredigion, ar lan yr Afon Teifi.



Er hwyrach mai bod yn fwy manwl y dyliwn, a nodi mai ar gyrion y pentref yr oeddem, oherwydd mai yno, yn 1940 / 41 yr adeiladwyd Gwersyll Carcharorion Rhyfel Rhif 70 (Henllan POW camp (Camp 70)).

Mae llawer o adeiladau'r gwersyll bellach wedi diflannu, ond mae 'na nifer yn dal i sefyll, megis yr ysbyty, y gegin a'r golchdy, ac un arall yn arbennig sy'n destun rhyfeddod a syndod.

Gwersyll ar gyfer carcharorion rhyfel o'r Eidal oedd hwn, a'r trueiniaid rheini wedi eu dal tra'n ymladd yn Tunisia a Libya, llawer ohonynt yn ifanc a di-brofiad mewn rhyfel.

Bu'r Eidalwyr yn y carchar yma, a ddaliai 1200 o garcharorion, rhwng 1943 a 1946. Wedi iddynt ymadael, defnyddiwyd y carchar ar gyfer carcharorion Almaenig yn ystod y

cyfnod 1946/47.

'Roedd y carcharorion yn cael cyfle i adael y gwersyll, dan oruchwyliaeth, yn ystod y dydd, a llawer ohonynt yn gwirfoddoli i weithio ar ffermydd yng ngogledd y sir, a thu hwnt yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro.

Wedi'r Ail Ryfel Byd ddod i ben, dychwelodd rhyw 700 o'r carcharorion i'w cartref yn yr Eidal, ond dewisodd eraill aros yn yr ardal, gan briodi'r merched lleol, ac mae eu disgynyddion yn dal i fyw yma.

Tra yn y carchar, 'roedd y carcharorion yn cael cyfle i hamddena mewn amryfal ffyrdd, gyda theatr, cae pel-droed a chwrt tennis at eu defnydd, ac fe ffurfiwyd cwmni opera a "swing band" ganddynt.

Ond yr un peth yr oeddent yn ei ddeisyf, fel Catholigion o argyhoeddiad, oedd modd o allu dod yn nes at eu Duw – ac er bod pennaeth y gwersyll yn cydymdeimlo a'u sefyllfa nid oedd eglwys o fath yn y byd ar y safle!

Daeth gweledigaeth o du'r carcharorion, ac awgrymwyd y byddent yn gallu hepgor eu defnydd o un Cwt Nissen lle cysgent, a'i droi yn eglwys. A dyna a wnaethpwyd – heb offer na deunydd adeiladu parod ar gyfer y dasg.

Ond 'roedd eu hargyhoeddiad a'u deisyfiad i glosio at eu Duw yn goddiweddyn pob problem a ddeuai ar eu traws.



'Roedd i bob tun coco, jam a "corned biff", pob coedyn a phob bricsen o adeiladau a ddymchwelwyd, pob hoelen rydlyd, pob bag o sment gwag, a phapurau newyddion y dydd eu defnydd. Bu iddynt gyfnewid oriau o waith am ychydig o sment. Ac allan o'r deunyddiau mwyaf annhebygol, bu iddynt adeiladu cangell, cromen, allorau a bedyddfaen. Buont yn rowlio caniau bwyd yn sgroliau ar gyfer y pileri, a phaentio'r cyfan i edrych fel patae yn famor gorau Carrara, a llenwi'r craciau gyda stribedi o bapur newydd a'i lynu

gyda chymysgwch o bast a wnaed o flawd a dŵr.

"Benthyciwyd" cloch o un o'r ffermydd a'i gosod yng Nghlochdy'r eglwys!

Hyd y dydd heddiw, ystyrir y gromen addurnedig uwchben yr allor yn y "Capel Eidalwyr" yn gampwaith (fresco o'r "Swper Olaf"), ynghyd a'r addurniadau ar ddistiau'r nenfwd – er y blynyddoedd o esgeulustod mae'r lliwiau wedi parhau'n brydferth a chywir – er mai cymysgwch o ddail te, sbarion llyisiau o'r gegin, wedi eu cymysgu ag aeron o'r cloddiau a ddefnyddiwyd yn baent.

"*Questa e la casa di Dio e la porta del cielo*" yw'r arwyddair uwchben y drws – "*Dyma dy Dduw a phorth y Nefoedd*"

Mario Ferlito* oedd yr arlunydd, a bu ar ei ymweliad cyntaf a Henllan ers ei ryddhau fel carcharor yn 1977. 'Roedd un o oruchwylwyr y gwersyll wedi sylwi ar ei ddawn fel artist, a bu wrthi am dri mis, yn ei amser hamdden, yn aml wrth olau kannwyll, yn cwblhau'r gwaith, ac yntau bryd hynny ond yn 21 oed. [* Bu farw yn Ornavasso, gogledd yr Eidal, yn 2008, yn ŵr 86 mlwydd oed.]

Ers hynny, mae'r safle wedi dod yn safle pererindod i deuluoedd y sawl a fu'n gaeth yn y gwersyll, a'r Eglwys yma ("Eglwys y Galon Gysegredig") ydi'r unig enghraifft o'i bath ar dir mawr Prydain (mae eglwys debyg ar un o Ynysoedd Erch [Orkneys]).

Mae diolch mawr yn ddyledus i Jon Meirion Jones, un o linach teulu enwog y Cilie, a phlant Ysgol y Ferwig, am sicrhau bod yr adeilad bellach wedi ei restru gan CADW (Gradd 11*), a'i fod felly wedi ei ddiogelu er budd cenedlaethau'r dyfodol serch bod peth gwaith cadwraeth o hyd yn angenrheidiol.

Ac er na ddarllenais y gyfrol, mae Jon Meirion Jones wedi cofnodi hanes y capel a'r artist mewn llyfr dan y teitl "Y Llynyn Arian" a gyhoeddwyd ganddo yn 2007.

Mae diolch hefyd i berchnogion y tir sydd yn cadw'r stori'n fyw, ac sy'n cynnal teithiau tywys diddorol ar y safle.

Ewch yno os cewch gyfle, i sawru peth o'r hanes, ac yn benodol i eistedd yn nhawelwch y Capel Eidalwyr.

Ac o wneud hynny, ceisiwch ddychmygu y criw o Eidalwyr caeth yma yn 1944, ymhell o'u cartrefi a'u teuluoedd, yn creu eglwys allan o bron ddim byd oherwydd eu deisyfiad i "*glosio at eu Duw*".

Mae 'na ysgrifen mewn Eidaleg uwchben y drws allanol i'r Capel hefyd, yn dynodi fel a ganlyn:-

"*I galon gysegredig Iesu, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd i bawb ohonom.*

Y carcharorion Eidaleg, yn arwydd o'n ffydd"

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Nid dim ond ar gyfer pysgod a sglodion neu winwns wedi'u piclo!

Fel y lemwn, dyma i chi gynhwysyn asidig arall amlbwrpasol ac rwy'n dychmygu bod gan y rhan fwyaf ohonoch o leiaf un botel yn llechu yn rhywle mewn

cwprdd cegin. At baddiben fyddwch chi yn defnyddio finegr? - i atal wyau rhag cracio wrth ferwi?; i socian eich traed er mwyn cael gwared ar arogl drwg?; i rinsio'ch

gwallt ar ôl ei olchi i gael gwared ar dandruff?; fel diod gyda mêl i leddfdu cymalau poenus? Darllenais yr awgrym hefyd ei fod yn cadw racwms draw (efallai ddylwn ei drïo ar gyfer cadw wiwerod a piod allan o'm gardd)! Bydd y rhan fwyaf ohonoch chi'n gwybod bod finegr gwyn yn lanhawr cartref rhad, diwenwyn. Mae un wefan yn rhestru dros 50 o ddefnyddiau

ac mae llyfrau hefyd wedi'u neilltuo i'w ddefnydd. Ond byddwch yn wylidwrs, oherwydd ei fod yn asidig ddylech osgoi ei ddefnyddio ar rai eitemau yn eich cartref e.e.wynebau carreg naturiol fel marmor, gwenithfaen, calchfaen, a thrafertin, lloriau pren a dodrefn, offer coginio haearn bwrw ac alwminiwm. Gall hefyd niweidio'r haen ar sgriniau digidol, eitemau a gemwaith wedi'u platio ag aur yn ogystal â ffabrigau cain fel sidan a rayon.

Fodd bynnag, fel cyfeiliant i'r tecawê traddodiadol Prydeinig o bysgod a sglodion fyddwn yn cysylltu finegar ran amlaf. Ond, yn y blynyddoedd diwethaf mae finegr wedi cael rhywfaint o drawsnewidiad fel cynhwysyn coginiol gyda'r amrywiaethau ohono sydd nawr ar gael yn caniatáu i'r cyflasin hwn ymddangos mewn llu o ryseitiau a bwydydd.

Yn ei ffurf fwyaf sylfaenol, daw finegr o sylfaen sy'n llawn siwgr wedi'i gwneud o afalau, reis neu rawnwin sy'n cael ei epleusu yn gyntaf i alcohol, yna'n finegr. Nid oes modd olrhain ei darddiad ond mae un o'r cyfeiriadau cynharaf o'r 5ed ganrif CC, lle

argymhellodd Hippocrates ei bwerau meddyginiaethol. Mae diwyllianau ledled y byd wedi mwynhau finegr eu treftadaeth amaethyddol ers canrifoedd -



fel finegr reis mewn gwledydd fel Japan a Tsieina a finegr seidr wedi'i wneud o afalau ym Mhrydain. Mae finegr Parsi wedi'i wneud o gansen siwgr yn elfen hanfodol o bics a wneir yn draddodiadol gan y bobl Parsi a oedd wedi mudo i isgyfandir India o Persia, ac sydd wedi lledaenu ar draws gweriniaethau De Asiaidd modern India a Phacistan.

Mae'r enw ei hun yn cyfeirio at ei darddiad gan fod y gair yn dod o'r Ffrangeg *vin aigre*, sy'n golygu gwin sur. Cyn dyfeisio'r corciau gwin, roedd fflasiâu gwin yn cael eu selio â chlái a chwyr a oedd yn aml yn cracio ac yn gadael aer i mewn gan wneud y gwin yn sur. Fodd bynnag, nid yw gwin sur yr un peth â finegr mân. Er bod y ddau yn cael eu cynhyrchu o facteria sy'n ffurfio asid asetig, mae finegr yn cael ei wneud o facteria penodol, yn bennaf o *Acetobacter aceti*. Arweiniodd dyfeisio pasteuriddio gan Louis Pasteur at well dealltwriaeth o'r broses o greu finegr a arweiniodd at gynhyrchu finegr yn fasnachol.

Efallai bod rhai ohonoch wedi rhoi cynnig ar finegr Balsamig sy'n cael ei wneud o sudd grawnwin. Mae gan y finegr balsamig gorau DDP (Dyfarniad Gwarchoddedig o Darddiad) a bydd wedi'i labelu i ddweud ei fod o Reggio Emilia neu

Modena yn yr Eidal. I barato'i y finegr mae'r grawnwin yn cael eu lleihau nes eu bod yn siropaid, yna'n cael eu epleusu a'u heneiddio'n naturiol am o leiaf 12 mlynedd a hyd at 25 mlynedd mewn cyfres o gasegenni pren; gall hyn orchymyn prisiau uchel iawn. Dylid ei ddefnyddio'n gynnil (oherwydd dwyster y blas yn ogystal â'r gost!) ar gyfer ei daenu dros lysiau neu chig, mewn dresin salad neu ei weini wedi'i daenu dros hufen iâ, mefus neu afalau wedi'u sleisio. Gall potel sydd wedi'i labelu'n syml 'finegr

Balsamig' gynnwys cymysgedd o finegr, caramel ac asiantau



tewychu. Mae Alan Davidson yn dweud bod defnyddio finegr balsamig fel cynhwysyn ffasiynol mewn bwytai soffistigedig wedi annog cynhyrchu mathau israddol gan gwmnïau oherwydd 'the glint of gold which is attracted by the name'.



Un arall sy'n ffefryn ar hyn o bryd yw finegr sieri o Andalusia yn Sbaen. Unwaith eto, nid yw fersiwn o ansawdd da yn rhad gan ei fod yn cael ei aeddfedu mewn casgenni derw am 10 mlynedd.

Mae finegr gwin coch a gwyn yn nwyddau coginio sylfaenol, ac yn dda ar gyfer dresin salad a marinadau. Mae finegr gwin coch yn cael ei ychwanegu i fresych coch sbeislyd i'w atal rhag troi'n borffor. Mae finegr gwin gwyn yn wych ar gyfer sylfaen saws fel hollandaise.

Mae finegr reis Japaneidd yn felyn ysgafn ac yn ysgafn iawn ei flas. Mae finegr gwin reis Tsieineidd ychydig yn gryfach ac mae ar gael mewn mathau gwyn, coch a du. Y fersiwn Japaneidd yw'r sail ar gyfer sesnin reis swshi a defnyddir finegr Tsieineidd mewn llawer o goginio clasurol Sichuan.

Mae finegr seidr afal yn ennill cydnabyddiaeth yn y byd lles, gyda rhai astudiaethau bach yn dangos y gallai helpu gyda threuliad, colli pwysau, a lefelau siwgr yn y gwaed ond mae angen ymchwil mwy trylwyr i ddeall a chadarnhau'r honiadau hyn yn llawn.

Finegr seidr sy'n dda ar gyfer piel cyflym (ciwcymbr wedi'i sleisio, radish, corbwmpenni) Gellir ei ddefnyddio hefyd gyda garleg a sinsir wedi'u gratio mewn marinadau ar gyfer ffledi pysgod neu porc.

Mae finegr gyda blas ffrwythau a pherlysiâu ar gael ac fe allwch wneud finegr wedi'i drwytho syml gartref trwy ychwanegu cynhwysion aromatig fel tarragon neu rosmari, tsilis coch tanbaid neu gyfuniadau sbeis cyfan gan gynnwys hadau mwstard, pupurau ac aeron allspice at finegr gwin gwyn a'i adael i drwytho am gwpl o wythnosau cyn ei hidlo.



CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Priodas hapus

Cafwyd diwrnod i'w gofio a'i drysori ar 24ain o Fai yng Nghapel Tabernacl Efail Isaf pan briodwyd Aled Herbert (mab Bethan a Huw Creigiau) a Ffion Rees gyda'r gwasanaeth yng ngofal medrus Rhiannon Humphreys.

Bu gwledd a pharti arbennig iawn yng Nghastell Hensol gan ddathlu yng nghwmni ffrindiau a theulu y pár ifanc - y diwrnod mwya perffaith.

Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.



Llongyfarchiadau a phob bendith i chi'ch dau wrth i chi gamu gyda'ch gilydd i'r dyfodol.

Dathliad arbennig!

Cyfarchion hwyr i'r annwyl Meira Ellis-Owen ddathlodd ei phen-blwydd yn bedwar ugain ifanc ddechrau mis Mehefin. Da gweld bod digon o ddathlu 'di bod! Dymuniadau gorau i ti!



Mabli

Hyfryd oedd clywed Mabli (Tudur) yn sgwrsio efo Caryl ar y sioe hwyr nos Iau, y 26ain o Fehefin! Os na ddigwyddoch ddal y sgwrs yn fyw mae'n werth mynd yn ôl i wrando ar sgwrs ddifyr Mabli wrth iddi ddewis ei hoff draciau sain a dal lan gyda'i hanes diweddar. Wedi graddio rai blynyddoedd yn ôl bellach mae Mabli yn gwneud gyrfa iddi ei hun yn Llundain yn y byd cerddorol. Pob lwc i ti gyda dy holl brosiectau!

Hari Samuel - ein seren!

Llongyfarchiadau arbennig i Hari Samuel sy' newydd raddio o Goleg Clare, Caergrawnt gyda gradd dosbarth cyntaf - ynghyd ag anrhydedd - mewn HSPS - Human, Social and Physical Science. Ofni na faswn yn gwneud cyfiawnder o'i gyfieithu! Rym ni i gyd mor falch ohonot, Hari. Nid yn unig gradd dosbarth cyntaf gydag anrhydedd - ond yr ail orau yn ei flwyddyn! Pob lwc i ti - gyda beth bynnag y daw nesa.



Hari ar ei ddiwrnod cyntaf yng Nghaergrawnt.

Tipyn o gamp!

Llongyfarchiadau mawr i Jac Miles Crosse! Mae Jac newydd ennill ei gap cyntaf i Gymru mewn pêl fasedg dan 15 mlwydd oed! Roedd y gêm ym Manceinion. Mab Sara, Maes Mynach yw Jac - ac edrychwn ymlaen at fwy o dy hanes! Pob lwc i ti yn y dyfodol.



Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y bonwr Alun Wyn Bevan. Wedi cyfnod o driniaeth, da deall bod Alun yn ymateb yn dda ac yn gwella'n arbennig! Dal ati i wella, Alun.

Merched y Wawr - Y Garth

Cyfarfod cloi'r tymor - cinio yn y Caesar's - Gorffennaf 16eg - 12/12.30. Manylion llawn i ddilyn!

Cadair i Gaenor am y trydydd tro

Llongyfarchiadau i Gaenor Mai Jones o Bentre'r Eglwys enillodd Gadair Eisteddfod Dyffryn Conwy. Hwn oedd y trydydd tro i Gaenor ennill y Gadair.

Y gofynion oedd sgrifennu cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 o linellau ar y testun 'Dathlu' a'r beirniad oedd Anni Llŷn, Sarn Mellteyrn.

Y wobor oedd cadair fechan a £50 yn rhoddedig gan Gaynor Evans a'r teulu, Belmont, Llanddoded. Yn Llanrwst roedd yr Eisteddfod ar Fehefin 21.





Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Llangrannog

Cafodd Bl.4 a 5 amser arbennig yn Llangrannog.



Canu ym Mharti Bach Ponty

Da iawn i ddisgyblion lleiaf yr ysgol ag unigolion o'r cor am ganu yn y Bandstand ym Mharti Bach Ponty. Roeddech chi'n wych!



Gŵyl Gerddoriaeth Castellau

Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi ein Gŵyl Gerddoriaeth. Roedd hi'n brynhawn hynnod o lwyddiannus gyda pherfformiadau gan LanStar, Mr Phormula a Hyfryd lawn ac ymweliad gan Seren a Sbarc!



Gweithdy Mr Phormiwlá

Diolch arbennig i Mr Phormiwlá am gynnal gweithdai gwych gyda'n disgyblion.



Diwrnodau Talentau

Bu'r athrawon yn cynnal gweithdau yn ymwneud a'u talentau gyda disgyblion yr ysgol fel rhan o'n thema 'Talentau' y tymor yma.



Bl.3 yn cwrdd a'i chyfeillion Penpal o YGG Llwyncelyn

Aeth Fl.3 i Barc Ynysangharad i gwrdd a'u cyfeillion penpal am y tro gyntaf o YGG Llwyncelyn. Maent wedi ysgrifennu llythyron atynt ac wedi gwneud cyflwyniad fideo felly roeddent wrth eu boddau yn cael cymdeithasu gwyneb yn wyneb yn y parc.



Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Parhad)

Wythnos Bwyta'n Iach

Fel ran o wythnos bwyta'n iach roedd y disgyblion wedi cael cyfle i goginio gyda Jen a blasu bwydydd iach. Roeddent hefyd wedi gwneud llawer o ymarfer corff.



Diwrnodau Pontio ac ymweliad Miss Llwyd

Mae Bl.6 wedi mwynhau cyfresi o wersi pontio gan athrawon Ysgol Garth Olwg ac wedi mwynhau sesiwn gyda Miss Llwydd a chyn-ddisgyblion yr Ysgol.



Canlyniadau Llenyddiaeth

Derbyn a Blwyddyn 1

1af Charlie - Willow Morris, Awel Taf
2il Stitch - Millie Scope, Awel Taf
3ydd Joy - Grace Sully, Awel Taf

Blwyddyn 2

1af Princess Peach - Rosie James, Awel Taf
2il Flo - Gwenno Florence Nicholls, Awel Taf

3ydd Sophie - Isla Towsland, Awel Taf

Blwyddyn 3 a 4

1af Ella y Chwedl - Nora Hoyle, Awel Taf
2il Lliwgar Liwgar - Jorgia Gopsill, Awel Taf
3ydd Beckham - Osian Chinnock-Davies, Awel Taf

Canlyniadau



Unawd cynradd

1af Stevie Rose
Culverhouse
2il Maesen Owen
3ydd Emma Parfitt
4ydd Elis Heddd Richards

Unawd offerynnol cynradd

1af Edryd Ifan Collins
2il Isla Loader
3ydd Elen Ashcroft-Young

Unawd Alaw Werin/Cerdd

Dant Cynradd
1af Anni Gwyn
2il Mari Efa Owens
3ydd Poppy Carpenter

Llefaru blwyddyn 3 a 4

1af Islwyn Fudge
2il Mari Efa
3ydd Hywel Fudge

Llefaru blwyddyn 5 a 6

1af Isla Harper
2il Anni Gwyn
3ydd Izzy Harper Kiff

Côr cynradd

1af Llwyneclyn
2il Ynyswen
3ydd Garth Olwg

Unawd offerynnol uwchradd

1af Elis Dickenson
2il Harri ap Llwyd Dafydd
3ydd Saga Strand
4ydd Gruffydd Morris

Canlyniadau Llenyddiaeth a Chelf

Blwyddyn 5 a 6

1af Pigog - Lleucu Real, Awel Taf
2il Draig Cymru - Charlie Ray richards, Awel Taf

3ydd Mwnci - Emrys Real, Awel Taf

Rhyddiaith Blwyddyn 7,8,9

1af - TG - Twm Geraint, Garth Olwg
2il - Tylluan - Tommi Burrows, Llanhari
3ydd - Tywysog Bonheddig - Rosie Gooding, Garth Olwg
ac IR - Ioan Richardson, Garth Olwg

Rhyddiaith Blwydd 10 ac 11

1af - A.M.N. - Gethin Duggan, Garth Olwg
2il - Arianrhod - Elin Rees, Garth Olwg
3ydd - Robin Goch - Lilie Deardon, Garth Olwg
ac Aderyn Porffor - Ruby Pearce, Garth Olwg

Rhyddiaith Blwyddyn 12 a 13

1af Blodyn yr Haul - Ffion Eleri Thomas
2il Buwch Goch Gota - Mari Bianchi-Jones
3ydd Arianrhod - Lauren Knight, Garth Olwg
a Heddd Wen - Ava Martin-Thomas, Garth Olwg

Dysgwyr Lefel Gloywi / Uwch

1af Manamanamwnci - Margaret Thomas
2il Bilidowcar - Ewan Smith
3ydd Martha Mellinck - Liz Wallek

Llefaru blwyddyn 7, 8 a 9
1af Gruffydd Morris

Llefaru i ddysgwyr oed uwchradd

1af Millie Short
2il Neve Paxton
3ydd Keelan Snooks

Unawd Sioe Gerdd

Uwchradd
1af Saga Strand
2il Anni Gwyn

Unawd uwchradd

1af Mabli Rogers
2il Saga Strand
3ydd Gruffydd Morris

Llefaru agored i ddysgwyr

1af Susan Roberts
2il Donna Williams
3ydd Jeanette Muff

Unawd agored i ddysgwyr

1af Fooseng Thean
2il Sarah Lowri
3ydd Susan Roberts

Unawd agored

1af Aled Wyn Thomas
2il Rhys Evans
3ydd Fooseng Thean

Unawd offerynnol agored
1af Bethan Ford

Parti/Côr Cerdd Dant

1af Côr Tônteg
2il Parti'r Efail

Parti/Côr i ddysgwyr

1af Côr Dysgwyr y Cymoedd
2il Côr Cymunedol Pontypridd
3ydd Côr Dysgwyr ABA

Unawd alaw werin agored

1af Seren Haf Macmillan

Unawd Sioe Gerdd Agored

1af Bethany Powell
2il Liam Powell

Côr Gwerin

1af Bechgyn Bro Taf
2il Parti'r Efail
3ydd Merched Cwm Rhondda

Côr Agored

1af Bechgyn Bro Taf
2il Godre'r Garth
3ydd Côr Cwm Rhondda
4ydd Côr Cwm Cynon

Dysgwyr Lefel Canolradd

1af - Gwen Eira - Donna Williams
2il - Cigfran Bapur - Sian Pearce
3ydd - Yr Hen Lysieuwr

Dysgwyr Lefel Sylfaen

1af - Eithin - Blake Hughes
2il - Llywelyn Malcolm Glyn - Marley Lovell

Limrig dan 18

1af - Blodeuwedd - Beca Fflur George, Garth Olwg
2il - Bois Bono - Math Roberts, Llanhari
3ydd - Jac y Do - Gwenllian Worgan, Llanhari

Celf Ffotograffiaeth

1af - Mair Maes Bach - Mair Hewitt
2il - SE Reflections - Sam Edwards
3ydd - CLIC - Hefin Gruffydd

Stori Fer

1af - Wern - Ifan Roberts
2il - Gorslwyd - Ifan Roberts
3ydd - Clefyd Melys - Gaenor Mai Jones

Englyn

1af - Losin - Tomos Rees
2il - Eironi - Martin Huws
3ydd - Rhyddhad - Martin Huws

Triban Morgannwg

1af - Triathro - Menna Thomas
2il - Awel Afon - Tomos Rees
3ydd - Cwrcyn - Martin Huws

Limrig i Oedolion

1af - Y Ferch a'r Ffos - Lynwen John
2il - Howzat - Martin Huws
3ydd - Bwgan - Elwyn Hughes

Ysgol Creigiau

Eisteddfod yr Urdd

Ddydd Mercher yn ystod hanner tymor, cystadlodd Gracie, Class 6, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam. Perfformiodd yn wych a daeth hi'n gyntaf yn y gystadleuaeth Llefaru Blwyddyn 5 a 6 i ddysgwyr. Rydym yn hynod falch o'i llwyddiant ac am gynrychioli'r ysgol mor wych. Arbennig Gracie!



Gwisgo Melyn Er Cof Am Anna

Ddydd Gwener cyn hanner tymor fe wisgodd y disgyblion a'r staff ddillad melyn er cof am Anna, cyn-ddisgybl talentog, creadigol a phenderfynol a fu farw yn drasig iawn tra ar wyliau gyda'i theulu ym mis Mai llynedd. Roedd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6, a oedd yn adnabod Anna'n dda, wedi gofyn a allai pob disgybl a staff wisgo melyn/neu rhywbeth melyn i'r ysgol gan mai melyn oedd hoff liw Anna.



Dosbarth 5 yn gwisgo melyn i gofio am Anna

Sight Cymru

Ymwelodd dau wirfoddolwr gyda Sight Cymru â'r ysgol i gyflwyno dau wasanaeth diddrol - un i'n disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac un i ddisgyblion CA2. Dysgodd y disgyblion lawer o ffeithiau diddrol am eu llygaid.



Ymweld â'r Senedd

Aeth tri disgybl o Ddosbarth 6, Alys, Nel ac Alys i'r Senedd ym Mae Caerdydd. Fel cynrychiolwyr Dosbarth 6 ar ein Cyngor Ysgol, dewiswyd y dair i gymryd rhan mewn "Senedd" ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Caerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r prosiect gyda chynrychiolwyr yn cymryd rhan weithredol yn y 'Senedd'. Mwynheuoedd nhw'r ymweliad a'r cyfle i gyd-weithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 eraill o bob cwr o'r ddinas.

Gweithdy Peirianeg

Ymunodd disgyblion Blwyddyn 4 a 5, ynghyd â llawer o ddisgyblion eraill o Flynyddoedd 4 a 5 y ddinas, â Gweithdy Peirianeg ar-lein a gyflwynwyd gan dîm Addewiad Caerdydd a thiworiaid Prifysgol Caerdydd. Mwynheuoedd pawb y profiad a dysgon nhw sgiliau a gwybodaeth newydd.

Diwrnod o Groeso

Ddydd Gwener, 13eg Mehefin, ymunon ni ag ysgolion eraill ledled y wlad i gymryd rhan mewn Diwrnod o Groeso. Arweiniodd aelodau Blwyddyn 5 o'n Cyngor Ysgol a'n Pwyllgor Lles dau wasanaeth ardderchog. Mwynheuoedd un o Lywodraethwyr yr ysgol, Mrs Tolley, y gwasaethau a chafodd gyfle i fynd i wahanol ddsbarthiadau a rhannu eu



Aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Lles o Flwyddyn 5



Dosbarth 2 yn dathlu Diwrnod o Groeso gweithgareddau. Mae Diwrnod o Groeso yn ddiwrnod blynyddol o undod a dysgu mewn ysgolion sy'n anelu at adeiladu diwylliant o groeso a dealltwriaeth tuag at bobl sy'n chwilio am loches.

Sesiynau Cymreictod

Ymwelodd Eleri Thomas, o Gapel Tabernacl yn Efail Isaf, â disgyblion Dosbarth 4 a Dosbarth 5. Roeddynt i gyd wedi mwynhau gwneud amrywiaeth o weithgareddau ar "Gymreictod". Diolch Eleri.

Tafwyl

Ddydd Sadwrn, 14eg Mehefin, perfformiodd disgyblion Dosbarth 1 a Dosbarth 2 ar lwyfan Ysgolion y Tafwyl. Canodd pob un yn wych. Diolch i Miss Davies a Mrs Matthews am hyfforddi'r disgyblion ac i Mrs Davies am recordio'r gerddoriaeth a diolch i'r holl rieni a theuluoedd am gefnogi.



Sioe Ddawns

Nos Iau, 19eg Mehefin, fe berfformiodd 29 aelod o'n clwb Dawnsio Disgo mewn Sioe Ddawns yn y Tramshed yng Nghaerdydd. Perfformiodd criw Blwyddyn 6, y garfan a'r tîm llawn yn wych ac roedd ymateb y gynulleidfa'n profi bod pawb wedi mwynhau'r perfformiadau'n fawr. Diolch i Mrs Tewkesbury a Mrs Long am eu hyfforddi a diolch i Mr Snell a drefnu'r gerddoriaeth. Diolch hefyd i'n rhieni a'n teuluoedd am gefnogi.



Mabolgampau

Roedd ein Mabolgampau'n hynod lwyddiannus unwaith eto eleni. Cawsom brynhawn gwych (a phoeth) ac roedd pawb wrth eu boddau. Gwerthodd y Grŵp SNAG pob un o'u potiau mefus blasus.

Ysgol Creigiau (Parhad)

Diolch i Tesco, Tonysguboriau, am gyfrannu llawer o'r mefus. Einion oedd y llys buddugol ar ddiwedd y prynhawn. Diolch i bawb am ddod i gefnogi a helpu gwneud y diwrnod yn un llwyddiannus.



Capteiniaid Einion yn y Mabolgampau

Wythnos Ffoaduriaid

Yn ddiweddar dathlon ni Wythnos Ffoaduriaid yn yr ysgol. Bu pob dosbarth yn brysur trwy gydol yr wythnos yn gwneud gweithgareddau amrywiol, yn ymuno mewn gweithdai ar-lein ac yn croesawu llawer o ymwelwyr i'r ysgol. Siaradodd Tom, Swyddog Addysg Caerdydd, â'n disgyblion Blwyddyn 6 am hunaniaeth a pherthyn. Rhannodd neges bwysig gyda'n disgyblion: "mae teimlo'n gysylltiedig â chymuned yn dod â theimlad o lesiant a hapusrwydd". Daeth Norman, o Ganolfan Oasis yng Nghaerdydd, i siarad â'n disgyblion CA2 am y gwaith maen nhw'n ei wneud yn y ganolfan a sut maen nhw'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Dywedodd wrthyn nhw fod Cymru yn anelu at fod y Genedl Noddfa gyntaf yn y byd. Cyflwynodd tri o'n disgyblion Blwyddyn 6 wersi rhagorol i'w cyfoedion. Rhannodd Katya ei sgiliau Groeg, dysgodd Noran wers Arabeg a dysgodd Monika wers Tsiec.

Daeth Wesam, disgybl Blwyddyn 6 mewn ysgol arall yng Nghaerdydd, i'r ysgol i siarad â'n disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Rhannodd Wesam ei daith fel ffoadur



Noran yn dysgu gwers Arabeg

Apêl Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Rhanbarth Gwent 2027

Annwyl ddarllenwyr,

Mae'n siŵr i nifer o chi fwynhau'r arlwy a'r bwrllwm o Barc Margam yn ystod hanner tymor mis Mai, ac hel atgofion am yr wythnos wych a gafwyd yn Rhondda Cynon Taf ddechrau mis Awst 2024.

gyda'n disgyblion. Gwrandawon nhw'n astud, a gofyn cwestiynau synhwyrol. Roedden nhw i gyd wedi'u syfrdanu gan stori ei fywyd. Diolch i ti Wesam am ymweld â ni a rhannu dy daith anhygoel gyda ni. Rydym yn rhyfeddu at dy wytnwch. Roedd y disgyblion i gyd wedi mwynhau'r wythnos yn fawr.



Monika yn dysgu gwers Tsiec

Wel, mae Eisteddfod Mr Urdd yn parhau i deithio, a bydd Tŷ Tredegar yng Nghasnewydd yn croesawu Cymru gyfan yn mis Mai 2027.

Wrth groesawu Eisteddfod i ardal, daw'r her – codi arian.

Mae siroedd Caerffili, Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent a Thorfaen yn ffurfio Rhanbarth Gwent, ac er bod Pwyllgor Gwaith wedi ei sefydlu (dan Gadeiryddiaeth Elin Maher a 5 is-Gadeirydd i gynrychioli pob sir) mae hi wedi dod i'r amlwg yn fuan iawn nad yw'r gefnogaeth o'r manau 'traddodiadol' mor amlwg a chadarn. Felly apêl sydd gen i, i ofyn a fyddeddi chi'n fodlon ystyried cefnogi'r gronfa leol trwy gyfrannu £5 y mis (£1.25 yr wythnos) gyda rhodd gymorth drwy 'Just Giving' mae'r Urdd wedi sefydlu. Mae croeso i chi gyfrannu mwy wrth gwrs!

Mae modd gwneud taliad misol drwy'r wefan. Allwch chi nodi pa Sir hoffech chi 'gefnogi' – Caerffili, Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent neu Torfaen – ond i'r un pot o arian mae'r arian yn mynd ar ddiwedd y dydd!

Mae wir angen i ni ymestyn y rhwyd mor bell a phosibl er mwyn rhoi'r cyfle i drigolion y rhanbarth i brofi'r wythnos orau erioed fel brofodd Pontypridd fis Awst diwethaf. Y gobaith wedyn yw y bydd yn rhoi'r hyder i'r boblogaeth glywed a mwynhau'r Gymraeg ac yn rhoi'r hwb i bobl ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt.

Os ydych chi'n teimlo gallwch chi gefnogi'r ymgyrch, mae modd i chi ddilyn y linc isod, neu'r daliwch eich ffon uwchben y côd QR yn y poster fydd yn mynd a chi yn syth i'r wefan.

Diolch yn fawr am eich amser a'ch cefnogaeth!

Osian Rowlands

Is-Gadeirydd ar ran Sir Caerffili,
Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen,
Rhanbarth Gwent 2027

HELEDD FYCHAN

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

- 01443 853214
- Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
- 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
- Heledd Fychan AS / MS
- @Heledd_Plaid
- @Heledd_Plaid



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus



Parti Bach Ponty

Cafodd Blwyddyn 1 a 2 wahoddiad i ganu ym Mharti Bach Ponty ac fe ganon nhw yn wych! Diolch i'r plant a ddaeth ac i'r rhieni am gefnogi. Cafodd pawb llawer o hwyl- yn enwedig wrth ddawnsio a chanu gyda Martyn Geraint!



Miri Mawr Mehefin

Aeth rhai o'n Cymry Cŵl i Ganolfan Hamdden y Ddraenen Wen er mwyn helpu a hyrwyddo i Gymraeg gyda Menter Iaith. Roedd yn hyfryd cwrdd a'r teuluoedd a Chymry bach y dyfodol!



Llangrannog

Roedd Blwyddyn 4 a 5 wedi cael amser bendigedig yn Llangrannog yn ystod mis Mehefin. Mwynhaodd pawb yr holl weithgareddau amrywiol ac roedd y tywydd yn wych hefyd! Diolch i'r staff aeth i ofalu am y disgyblion.



Hwyl yn Llangrannog

Mabolgampau

Braf oedd cynnal mabolgampau cyntaf Ysgol Awel Taf ar ein cae godidog ein hun! Cadwodd y glaw i ffwrdd a cafodd pawb llawer o hwyl wrth gystadlu.



Parti Pwll Ponty

Diolch i Menter Iaith am drefnu Parti Pwll Ponty eleni eto. Roedd Blwyddyn 6 wrth eu boddau!



Eisteddfod Pontypridd

Llongyfarchiadau i holl enillwyr cystadlaethau Eisteddfod Pontypridd. Mae Ysgol Awel Taf yn falch iawn ohonoch chi!



Noson Gyda Shane Williams Canolfan: Yr Olwg Dyddiad: 9 Hydref 2025 7.30yh

Mae Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'u Ffrindiau am gefnogi y noson Gymraeg yma yng nghwmni Shane Williams gyda Ieuan Rhys a Phylip Harries.

Noson diddorol a hwyliog ar Hydref 9fed cychwyn am 7.30 yr hwyr yn Stiwdio yr Olwg Pentre'r Eglwys.

Gallwch archebu drwy wefan Theatrau Rhondda Cynon Taf. Cyfeiriad: RCT - Theatres.co.uk/Yr Olwg Ffôn: 0 3000 040 44


Tocynnau - £26.00

www.rct-theatres.co.uk/cy/

Mae tâl archebu o £2.50 pan fyddwch chi'n talu am Achlysuron Byw ar-lein

Bydd y chwaraewr rygbi chwedlonol Cymru Shane Williams yn datgelu cyfrinachau rhyfeddol ei yrfa ddisglair wrth iddo droedio'r llwyfan yn yr achlysur arbennig yma.

Roedd Shane Williams yn chwarae rygbi'r undeb dros Gymru, gan ennill ei blwyf yn un o chwaraewyr mwyaf llwyddiannus ar yr asgell i'r Gweilch a thim cenedlaethol Cymru.



Eisiau mynd i'r Eisteddfod yn Wrecsam am y dydd?

Mae Côr y Dysgwyr yn teithio i Wrecsam ac yn ôl ddydd Iau, 7 Awst ac mae ychydig o lefydd ar ôl y bws. Bydd y bws i yn gadael Pontypridd am 7.00 ac yn cychwyn yn ôl tua 5.30. Y pris fydd £30 (ddim yn cynnwys mynediad i'r Maes). Anfonwch neges i cordysgwyr@hotmail.com i gadw lle.

Ysgol Garth Olwg

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam. Roedd pawb wedi perfformio'n wych trwy gydol yr wythnos a dyma'r rhai a lwyddodd i ddod i'r brig:

2il Rhyddiaith bl 2 ac iau Mabli Tomos

2il Rhyddiaith bl 3 a 4 Nel Spanswick

2il Barddoniaeth 5 a 6 Elsi Hughes

2il Uwchgyrchu Bl 10-13 Elin Rees

2il Barddoniaeth bl 7 Gwennan Morgan

2il Rhyddiaith bl 8 Gwenno Roberts

3ydd Ffotograffiaeth du a gwyn bl 10-13 Twm Pike

2il Detholiad o sioe gerdd – criw Matilda

3ydd Unawd Gitar bl 10 – 13 Elis Jones

3ydd Unawd Taro bl 10 – 13 Elis Jones



Diwrnod Balchder

Er mwyn codi mwybyddiaeth ar gyfer Mis Pride / Balchder gwnaethom ddiwrnod er mwyn hybu'r mis. Gwnaeth y



Fforwm Cydraddoldeb wasanaeth i godi ymwybyddiaeth a chynnal stondinau ar y dydd. Roedd yn ddiwrnod lliwgar llawn hwyl gan bawb!

Neges ewyllys Da'r Urdd

Tlodi oedd thema Neges Ewyllys Da'r Urdd eleni a gwnaeth y Fforwm Cydraddoldeb arwain y neges. Creom fideo i gydfynd yn ogystal â gwasanaeth Ysgol gyfan.

Parti Bach Ponty

Cafodd y Parti Bechgyn, Côr yr Ysgol Isaf, Miley Goss, y criw dawns a bandiau Rhyddid a Lan Stâr y cyfle i berfformio ym Mharti Bach Ponty eleni. Gwych oedd cefnogi Cymreictod o fewn Pontyrridd! Roedd yn brynhawn hyfryd ym Mharec Ynysangharad.



Sesiwn Sylwebu gyda Mei Emrys

Diolch yn fawr i Fenter Iaith am drefnu gweithdy sylwebu gyda Mei Emrys er mwyn datllu llwyddiant pêl-droed menywod Cymru wrth gyraedd yr Ewros. Bu'r disgyblion yn dysgu am sylwebu cyn mynd ati i baratoi sylwebaethau mewn grwpiau. Am brofiad gwych!



Tafwyl

Cafodd bandiau ifanc yr ysgol Rhyddid a Lan Stâr cyfle arbennig i berfformio yn Tafwyl eleni. Roeddent yn perfformio yn yr Yurt a gwych oedd eu gweld nhw yn perfformio mor egniol!



Cân y Cymoedd

Fel rhan o brosiect Cân y Cymoedd cafodd criw o ddisgyblion blwyddyn 9 y cyfle i ymweld â Pharc Treftadaeth y Rhondda. Roedd hyn yn gyfle gwych a chawsant lawer o ysbrydoliaeth. Mae'r disgyblion yn defnyddio hyn fel sbardun ar gyfer eu cyfansoddiadau. Drwy gydweithio gydag Eadyth a Sam mae'r disgyblion yn cyfansoddi caneuon eu hunain ar gyfer y prosiect sydd yn cyfleu eu profiadau o fyw yn y Cymoedd.



Ysgol Llanhari

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion Llanhari ar berfformiadau graenus iawn yn Eisteddfod Dur a Môr yn ystod y Sulgwyn. Braff iawn oedd y cyfle i'r côr iau, partion bechgyn a merched a'r merched hŷn berfformio ar lwyfan o flaen torf fawr a chefnogol. Da iawn hefyd i Gruff ar ei berfformiadau unigol ac i Elen a Daisy yn y cystadlaethau Cogurdd



Parti Ponty

Roedd disgyblion yr adran gynradd wrth eu bodd yn perfformio ym Mharti Bach Ponty ym Mharec Ynys Angharad. Diolch am y gwahoddiad i berfformio a diolch i Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf am yr holl waith trefnu o flaen llaw.



Parti Ponty

Trosglwyddo

Croesawyd disgyblion blwyddyn 6 y clwstrwr i ddiwrnod trosglwyddo yn ddiweddar. Braff oedd gweld cymaint yn mwynhau'r profiadau amrywiol oedd ar gael a threulio amser gyda'i ffrindiau newydd. Diolch am yr holl waith trefnu.



Noson agored Blwyddyn 5

Braff iawn oedd croesawu disgyblion a rhieni blwyddyn 5 y clwstrwr i'r ysgol ar gyfer noson agored. Am fwrlwm!



Bore o hwyl Meithrin

Cynhaliwyd bore o hwyl ar gyfer y disgyblion fydd yn ymuno gyda ni yn Ysgol Llanhari yn y meithrin ym mis Medi. Roedd hi'n gyfle arbennig i'r disgyblion a'r rhieni ymweld â'r dosbarth ac i gyfarfod yr athrawon. Roedd llawer o chwerthin i'w glywed yn dod o ddosbarth Dewi Draenog.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi cyn hir.



Graddio

Dathlwyd Seremoni Graddio'r disgyblion meithrin yn ddiweddar. Roedd y plant yn arbennig yn canu ac yn adrodd stori Tri Mochyn Bach. Cyflwynodd Mrs Vincent dystysgrif i'r disgyblion a rhannu gobeithion y plant hynny am y dyfodol. Am fore bendigedig.



Llangrannog

Aeth disgyblion dosbarth Gwennol a Barcud i Llangrannog ym mis Mehefin. Cawsant amser gwych yn gwneud yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael yno; dringo, sgio, marchogaeth ceffyl ac wrth gwrs y disgo. Roeddent yn ffodus iawn fod yr haul wedi dod allan i wenu arnynt.



Ysgol Llanhari (Parhad)

Mwynhau Llangrannog



Teithiau'r Adran Uwchradd

Mae disgyblion yr adran uwchradd wedi mwynhau'r awyr iach yn ddiweddar ar eu teithiau. Cafwyd diwrnod a thywydd da ar gyfer diwrnod Gwobr Dug Caeredin ac yna mynydda a dysgu cyfeiriannu yn Eryri gyda'r athrawon.



Gwobr Sylfaenywyr Llanhari

Pleser o'r mwyaf fu derbyn swm sylweddol o arian yn rhodd yn ddiweddar gan gyn-ddisgyblion o flwyddyn gyntaf Ysgol Llanhari yn 1974 er mwyn datlu hanner can mlwyddiant yr ysgol. Gwnaed casgliad gan y criw er mwyn anrhydeddu y disgybl o flwyddyn 11 neu 13 yn flynyddol sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf. Roeddem yn falch iawn i gyhoeddi mai Betsi Jenkins, cyn ddisgybl o Ysgol Dolau oedd y disgybl cyntaf i dderbyn y wobr arbennig hon. Am anrhydedd! Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Sylfaenywyr am eu haelioni ac roedd Betsi wrth ei bodd!

Gwobr Goffa Rhys Rubery

Enillydd Gwobr Goffa Rhys Rubery eleni oedd Joseph Lloyd b111. Llongyfarchiadau mawr i'r bachgen diymhongar a chyfeillgar hwn a diolch iddo am ei gyfraniad i'r ysgol.



Hwyl fawr Blwyddyn 13!

Braf oedd cymryd y cyfle i ffarwelio â'r criw arbennig yma cyn Sulgywn, Mae eu cyfraniad i'r ysgol wedi bod yn amhrisiadawy a dymunwn y gorau iddynt ar eu camau nesaf. Gyda chymaint o bêl-droedwyr dawnus yn eu plith, addas iawn oedd cynnal gêm bêl-droed yn erbyn y staff yn ystod y prynhawn o ddatlu yn yr ysgol. Y staff a orfu! Llongyfarchiadau mawr i Joseph Danter, enillydd gwobr goffa Merfyn Griffiths eleni.



Canolfan Yr Olwg Centre YR OLWG

CREFFT A FFILM I BLANT

21^{ain} o AWST

I gadw lle, ewch i... 

bookwhen.com/gartholwg

£5

Crefft 'Moana 2'

10:30^{yb}

Wedyn Film 'Moana 2' yn Y Theatr

Crefft 'Moana 2'

1:30^{yp}

Wedyn Film 'Moana 2' yn Y Theatr

f Canolfan Yr Olwg Centre | 01443 570075
Heol Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ

CANOLFAN YR OLWG CENTRE YR OLWG

Heol Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ

Crefft

MINECRAFT

Crefft 'Minecraft'

14^{eg} o Awst

10:30^{yb}

Wedyn Ffilm 'Minecraft' yn Y Theatr

Crefft 'Minecraft'

1:30^{yp}

Wedyn Ffilm 'Minecraft' yn Y Theatr

£5

I gadw lle, ewch i... 

bookwhen.com/gartholwg

f Canolfan Garth Olwg Centre | 01443 570075
gartholwgllc



Clwb Rygbi Pontypridd

Tymor Newydd ar y gorwel

Egwyl ddigon fer fydd gan garfan Clwb Rygbi Pontypridd dros yr haf cyn i'r tymor newydd ddechrau ym mis Medi. Bydd Ponty unwaith eto yn cystadlu yn Uwch-adran Admiral, ar ôl gorffen yn ail yn y tabl y tymor diwethaf, ac wedi ennill y Cwpan Cenedlaethol. Mae'r chwaraewyr eisioes wedi dychwelyd i ymarfer.

Mae'r rhestr gemau ar gyfer y tymor newydd eisioes wedi eu cyhoeddi, a bydd Pontypridd yn cychwyn eu hymgyrch oddi cartref yn erbyn Aberhonddu ar y 6ed o Fedi. Y ddau dîm newydd yn yr adran, wedi eu dyrchafu o'r Bencampwriaeth (dwyrain a gorllewin), fydd Beddau a Chrwydriaid Llanelli, a bydd y gêm ddarbi leol yn erbyn Beddau ar Heol Sardis ar y 27ain o Fedi – gall honno fod yn ornest danllyd! Bydd Ponty yn chwarae yn erbyn pencampwyr y llynedd, Merthyr, oddi cartref ar y 13eg o Ragfyr, a gartref ar yr 11eg o Ebrill. Gêm ddarbi draddodiadol y Nadolig fydd honno gartref yn erbyn Ystrad Rhondda ar yr 20fed o Ragfyr, gyda'r gobaith o weld torf enfawr yn y stadiwm fel a gafwyd y



tymor diwethaf. Dyna rai o uchafbwyntiau posib y tymor i ddod.

Cyn i'r Uwch-adran gychwyn, mae gemau cyn-dymor wedi eu trefnu drwy fis Awst. Bydd twrnament saith-bob-ochor Sardis 7s yn cael ei gynnal dros benwythnos olaf mis Gorffennaf, wedyn ar ddydd Sadwrn yr 2il o Awst bydd gêm dysteb Joel Raikes a Dale Stuckey, yn erbyn tîm o gyn-sêr y clwb.

Trefn y gemau paratoadol wedi hynny fydd:- Casnewydd gartref ar y 9fed o Awst, Cilfynydd gartref ar y 16eg cyn fod taith glan-y-môr i chwarae Dinbych-y-Pysgod ar y 23ain. Bydd y gemau cyn-dymor yn dod i ben gydag ymweliad clwb St Albans o Gaerdydd i Heol Sardis ar ddydd Sadwrn y 30ain o Awst.

Bydd chwaraewyr Ponty yn gwisgo cit newydd deniadol ar gyfer y tymor i ddod (gweler y lluniau) ac mae'n bosib archebu'r crysau, gartref (du) ac oddi cartref (porffor) trwy e-bostio shopprfc@gmail.com

Am yr holl wybodaeth am gemau Ponty y tymor nesaf a'r manylion am y cit newydd, galwch mewn i wefan y Clwb – www.ponty.net - neu ar y safleodd cymdeithasol - [@pontypriddrfc](https://www.facebook.com/pontypriddrfc)

Guto Davies





Rhian Hopkins

Pentre'r Eglwys





Newyddion
Dathlu 'Annis' ein hardal: Holi Helen
 RHIAN HOPKINS
 Helen Prosser o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn rhannu ei phrofiadau o ddysgu'r iaith



Newyddion
Y gymuned Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf
 RHIAN HOPKINS
 Mae Bethan Ford yn awyddus i hyrwyddo Cymreictod yn ardal Rhondda Cynon Taf er budd siaradwyr newydd



Newyddion
Cyn-athrawes sy'n cyfrannu cymaint yn lleol
 RHIAN HOPKINS
 Mae Jayne Rees yn byw yn lleol ers dros 40 mlynedd ac mae'n gweithio'n ddi-ffino dros y Gymraeg



Newyddion
Tafod Elái ar fin dathlu 40 mlynedd o rannu straeon lleol
 RHIAN HOPKINS
 Cyhoeddwyd y rhifyn taf yn Hydref 1985 ac erbyn hyn, Tafod Elái yw'r unig bapur bro yn ein hardal ni

BRO360

Yn ystod mis Mehefin mae Rhian Hopkins wedi cyhoeddi cyfres o erthyglau ar BRO360 am drigolion yr ardal. Ceir erthyglau gan Jayne Rees, Bethan Ford, Penri Williams a Helen Prosser ac eraill.

Gallwch ddarllen y cyfraniadau ar wefan BRO360 - <https://bro.360.cymru/aelod/rhianhopkins/>

EISIAU GWEFAN FRO YN RHCT?

Y MUNWCH I DRAFOD Y SYNIAD O SEFYDLU GWEFAN(NAU) STRAEON LLEOL I ARDAL RHONDDA CYNON TAF

16
GORFFENAF
2025

NOS FERCHER
6.30-8PM
 CANOLFAN CALON TAF,
 PARC YNYSANGHARAD,
 PONTYPREDD

Methu dod? Sganiwch y cod QR i lenwi'r holiadur:

YMBWERO
BRO



 **CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND**